Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

# 17 18

# Annual report 2017-18
# Adroddiad blynyddol 2017-18

Yn cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau
Supporting charities, volunteers and communities

0300 111 0124
www.wcva.org.uk




DARLLENWCH AM Y FFORDD Y MAE FERN PARTNERSHIP YN CRYFHAU'R GYMUNED - TUDALEN 13
READ ABOUT HOW THE FERN PARTNERSHIP IS STRENGTHENING THEIR COMMUNITY - PAGE 13

# CROESO

**Croeso i Adroddiad Blynyddol 2017-18 WCVA. Mae hi wedi bod yn flwyddyn gyffrous i WCVA ac rydym wedi rhoi newidiadau arwyddocaol ar waith.**

**Roedd 2017-18 yn nodi dechrau ein cynllun strategol pum-mlynedd newydd, wedi cryn dipyn o ymgynghori a thrafod â'n haelodau a'n partneriaid. Ar y tudalennau nesaf fe gewch gipolwg o'r hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud i wireddu ein hamcanion newydd uchelgeisiol, gan ganolbwyntio ar y newid yr ydym am ei weld yng nghymdeithas ac o fewn ein mudiad.**

Mae ein cynllun strategol yn ystyried y ffordd y mae WCVA yn cyfrannu at y Nodau Llesiant a osodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'n glir i ni fod cyfraniad y trydydd sector at gyflawni'r Nodau Llesiant, a ffyniant yn y dyfodol yng Nghymru, yn hanfodol.

Serch hynny, mae'r trydydd sector yng Nghymru yn wynebu newid digynsail a heriau cynyddol, gan gynnwys mwy o alw, prinder adnoddau ac ansicrwydd. Mae WCVA yma i gynnig cymorth, her, ac arweinyddiaeth i'r sector a rhown bwys mawr ar hyn.

Yn 2017-18 fe ddosbarthom £9,795,552 i'r trydydd sector i helpu i gefnogi cyllid cynaliadwy. Fe gydweithiom â'n haelodau, ein partneriaid a'r llywodraeth i ddeall beth sydd ei angen er mwyn grymuso a chryfhau cymunedau Cymru. Hefyd, fe ddaethom â thros 500 o weithwyr a gwirfoddolwyr o'r trydydd sector ynghyd i ddysgu oddi wrth ei gilydd ac ysbrydoli ei gilydd yn ein hachlysur blynyddol, gofod[3].

Rydym yn falch o fod yn aelod o Cefnogi Trydydd Sector Cymru, rhwydwaith unigryw o fudiadau cymorth i'r trydydd sector yng Nghymru, a thrwyddo rydym yn gweithio'n agos gyda'r 19 Cyngor Gwirfoddol Sirol sy'n chwarae rôl allweddol yn cefnogi'r trydydd sector yn lleol.

Ychydig iawn o'n gwaith sy'n digwydd gydag un person neu un asiantaeth yn unig, ac mae gweithio mewn partneriaeth, cydweithio a chynnwys ein haelodau wrth wraidd y ffordd y mae staff WCVA yn cyrraedd targedau heriol ac uchelgeisiol. Eleni rydym wrth ein boddau o fod wedi datblygu partneriaeth â Cynnal Cymru, y mudiad arweiniol ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru, perthynas sydd â chryn botensial i'r dyfodol.

Mae effaith y trydydd sector a gwirfoddolwyr yn anhygoel ac rydym yn hynod o ddiolchgar i holl aelodau o staff WCVA a'n Bwrdd am eu gwaith a'u hymrwymiad diwyro i'w gefnogi.

**Ruth Marks MBE**
Prif Weithredwr

**Peter Davies CBE**
Cadeirydd



**RUTH MARKS MBE**
Prif Weithredwr
Chief Executive



**PETER DAVIES CBE**
Cadeirydd
Chair




GOFOD$^3$ OEDD Y LLE I FOD I UNRHYW UN SY'N YMWNEUD Â'R TRYDYDD SECTOR - DARLLENWCH FWY AR DUDALEN 11

GOFOD$^3$ WAS THE PLACE TO BE FOR ANYONE INVOLVED IN THE THIRD SECTOR - READ MORE ON PAGE 11

# WELCOME

**Welcome to our Annual Report for 2017-18. This has been an exciting year for WCVA and we've led some significant changes.**

**2017-18 marked the beginning of our new five-year strategic plan, following extensive consultation and discussions with our members and partners. Over the next few pages you'll see a snapshot of what we've been doing to realise our ambitious new goals, focusing on the change we want to see both in society and within our organisation.**

Our strategic plan considers how WCVA contributes to the Well-being Goals set out in the Well-being of Future Generations (Wales) Act. It's clear to us that the third sector's contribution to achieving the Well-being Goals, and future prosperity in Wales, is vital.

However, the third sector in Wales is facing unprecedented change and increasing challenges, including rising demand, tightening resources and uncertainty. WCVA is here to provide support, challenge, and leadership for the sector and we take this very seriously.

In 2017-18 we distributed £9,795,552 to the third sector to help support sustainable funding. We engaged with our members, partners and government to identify what needs to happen if we are to achieve more empowered and resilient communities in Wales. We also connected over 500 third sector employees and volunteers to learn from and inspire each other as part of our annual gofod³ event.

We are proud to be a member of Third Sector Support Wales, a unique network of support organisations for the third sector in Wales, and through this work closely with the 19 County Voluntary Councils who play a key role in supporting the third sector locally.

Very little of what we do happens with just one person or agency involved, and working in partnership, collaborating and engaging with our members is at the heart of how WCVA staff deliver challenging and stretching targets. This year we are delighted to have progressed a partnership with Cynnal Cymru, the leading organisation for sustainable development in Wales, a relationship with great potential for the future.

The impact of the third sector and volunteers is incredible and we are extremely grateful to all WCVA's staff and our Board for their ongoing work and commitment to support it.

**Ruth Marks MBE**
Chief Executive

**Peter Davies CBE**
Chair




**RUTH MARKS MBE**
Prif Weithredwr
Chief Executive



**PETER DAVIES CBE**
Cadeirydd
Chair

# CYNLLUN WCVA AR GYFER NEWID

## 2017-22




**Yn WCVA rydym wedi rhoi ffocws newydd i'n gwaith i ganolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei wneud i gyfrannu at ddyfodol lle mae gwirfoddoli a'r trydydd sector yn ffynnu, gan wella llesiant pobl ledled Cymru.**

**Fe wnaethom osod pum amcan i ni'n hunain ar gyfer 2017-2022 ac yn yr adroddiad hwn ceir enghreifftiau o'r hyn a wnaethom tuag at yr amcanion hyn yn 2017-18 a'r gwahaniaeth a wnaethom.**

### 01. Mae'r trydydd sector a gwirfoddoli yn gryfach ac yn fwy cadarn

Er mwyn i fudiadau trydydd sector wneud y gwahaniaeth mwyaf posib, mae angen iddynt fod yn gryf eu hunain. Bydd WCVA yn canolbwyntio ar lywodraethu da, cyllid cynaliadwy ac annog pobl i wirfoddoli.

Mae newid ar y gorwel, yn sgil pethau fel Brexit a datblygiadau digidol. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod y sector yn barod i fanteisio ar y cyfleoedd a lleihau'r bygythiadau i ddod.

### 02. Mae'r trydydd sector a gwirfoddoli yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy a rhoddir mwy o ffydd ynddynt

Mae ffydd mewn sefydliadau cyhoeddus yn dirywio, gan gynnwys ffydd y cyhoedd mewn elusennau. Dylai hyn beri pryder i ni gyd ac rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan yn gwrthdroi'r duedd hon.

Yn rhy aml, ni ddeellir cyfraniad enfawr y trydydd sector a gwirfoddoli, na'i werthfawrogi. Hoffem newid hynny drwy dynnu sylw at werth y sector i gymdeithas.

### 03. Mae'r trydydd sector a gwirfoddoli yn cael mwy o effaith ar lesiant yn awr ac yn y dyfodol

Mae'r trydydd sector a gwirfoddoli eisoes yn gwneud gwahaniaeth mawr mewn cymunedau ac yn llesiant pobl. Hoffem helpu'r sector i wneud yr hyn y mae eisoes yn ei wneud yn well fyth. Byddwn yn canolbwyntio ar y ffordd y gall y sector gyfrannu at rymuso a chryfhau cymunedau, creu atebion arloesol sy'n gwella bywydau pobl yn uniongyrchol, ac ymwneud â byd busnes, cyrff cyhoeddus a'n democratiaeth fel y gallwn ni gyd wneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd.

### 04. Mae WCVA yn fwy cynaliadwy a chyfrifol


Yn yr un modd ag yr ydym yn cydnabod bod angen i fudiadau trydydd sector fod yn gryf ac yn gadarn i gyflawni eu hamcanion, mae'r un yn wir am WCVA. Fel mudiad rydym wedi ymrwymo i weithio tuag at gyflawni hyn mewn ffordd sy'n cyfrannu at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ehangach.

### 05. Mae WCVA yn gwneud defnydd gwell o adnoddau mwy amrywiol

Mewn amgylchedd ariannol cynyddol anodd, rydym yn cydnabod bod angen i ni nid yn unig amrywio ein ffynonellau ariannol, ond hefyd newid ein ffordd o weithio i wneud defnydd gwell o'n hadnoddau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio dulliau digidol yn fwy, diwylliant o welliant parhaus a chydweithio ag eraill. Yn WCVA ein haelodau yw ein hadnodd mwyaf, a bydd hyn wrth wraidd ein gwaith.

# WCVA'S PLAN FOR CHANGE

## 2017-22




**At WCVA we've refocussed our work to concentrate on what we can do to contribute towards a future where volunteering and the third sector thrive, improving people's well-being across Wales.**

**We set ourselves five goals for 2017-2022 and in this report you'll find examples of what we did towards those goals in 2017-18 and the difference that we made.**

### 01. The third sector and volunteering are stronger and more resilient

If third sector organisations are going to make the biggest difference they can, they need to be strong themselves. WCVA will focus on good governance, sustainable funding and people getting involved in voluntary action.

Whether it's Brexit or the digital era, change is on the horizon. We will work to ensure the sector is prepared to maximise the opportunities and minimise the threats this might bring.

### 02. The third sector and volunteering are more valued and trusted

Trust in public institutions is declining, including public trust in charities. This should concern all of us and we want to play our part in reversing the trend.

Too often, the enormous contribution of the third sector and volunteering is not understood or valued. We want to change that by demonstrating and championing the value of the sector to society.

### 03. The third sector and volunteering make a bigger impact on current and future well-being

The third sector and voluntary action already make a big difference to communities and people's well-being. We want to help the sector to do what it's doing already even better. We will focus on how the sector can contribute to more empowered and resilient communities, create innovative solutions that directly improve people's lives, and engage with business, public bodies and our democracy so that we can all make a bigger difference together.

### 04. WCVA is more sustainable and responsible

Just as we recognise third sector organisations need to be strong and resilient to fulfil their goals, the same is true for WCVA. As an organisation we are committed to working to achieve this in a way that contributes to wider economic, social, environmental and cultural well-being.

### 05. WCVA makes better use of more diverse resources

In an increasingly squeezed funding environment, we recognise that not only do we need to diversify our funding base, but we need to change the way we work to make better use of our resources. This includes more digital solutions, a culture of continuous improvement and working collaboratively with others. At WCVA our members are our biggest resource, and this will be central to our work.

# MAE'R TRYDYDD SECTOR A GWIRFODDOLI YN GRYFACH AC YN FWY CADARN

# THE THIRD SECTOR AND VOLUNTEERING ARE STRONGER AND MORE RESILIENT




Hawliwyd **3,240** o dystysgrifau Gwirfoddolwyr y Mileniwm, sy'n gyfystyr â **267,000** o oriau o wirfoddoli

**3,240** Millennium Volunteers certificates claimed, representing **267,000** hours of volunteering



Cyfrannodd **2,339** o bobl ifanc at baneli grant dan arweiniad pobl ifanc neu brosiectau gweithredu cymdeithasol/gwirfoddoli

**2,339** young people contributed time to youth-led grant panels or social action/volunteering projects



Darparwyd **163** o gyrsiau hyfforddi i **1,728 O BOBL**


**163** training courses delivered to **1,728 PARTICIPANTS**



Rhoddodd ein Cronfa Cynhwysiant Gweithredol **99 GRANT GWERTH CYFANSWM O £8.76 MILIWN** i gynyddu sgiliau a hyder 6,790 o bobl sydd bellaf o'r farchnad lafur

Our Active Inclusion Fund gave **99 GRANTS TOTALLING £8.76 MILLION** to increase the skills and confidence of 6,790 people who are furthest from the labour market








**96%** yn rhoi da neu rhagorol i'n cyrsiau

**96%** of learners rated our courses as good or excellent

Helpodd ein tîm Cynigion Gwell fudiadau i sicrhau **£11,538,435** o arian y Gronfa Loteri Fawr

Our Better Bids Team helped organisations secure **£11,538,435** of Big Lottery funding



Dosbarthodd tîm Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru WCVA **£1.44M** i gefnogi mentrau cymdeithasol

WCVA's Social Investment Cymru team delivered **£1.44M** to support social enterprises

# MAE JOSHUA YN BRENTIS ELITE

**Mae cyllid cynaliadwy yn allweddol i drydydd sector cryfach a mwy cadarn. Dyma sut y mae wedi helpu ELITE Paper Solutions i gefnogi Joshua.**

Mae buddsoddiad WCVA yn ELITE Paper Solutions drwy'r Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol wedi helpu Joshua O'Leary gyda thrafferthion o ran ei bwysau, medrusrwydd llaw, dyslecsia ac iselder.

Dechreuodd Joshua weithio gydag ELITE Paper Solutions fis Ebrill 2017 fel Gweithiwr Ailgylchu dan Hyfforddiant. Ers hynny mae ef wedi cwblhau hyfforddiant codi a chario a Rhaglen Hyfforddeiaeth ac yn symud ymlaen at Brentisiaeth Sylfaen mewn Gweithrediadau Warws. Cafodd ei enwebu ar gyfer Gwobrau Prentisiaethau Cymru ac enillodd Wobr Lefel Un Hyfforddeiaeth y Flwyddyn People's Plus. Dywedodd: 'Mae'r amgylchedd yma wedi helpu i roi hwb i'm hyder. Dwi wedi gwneud llwyth o ffrindiau newydd, rhywbeth nad oeddwn yn gallu'i wneud o'r blaen.'

Dywedodd Andrea Wayman, Prif Weithredwr ELITE: 'Rydym wrth gwrs yn falch iawn o lwyddiannau rhagorol Joshua ac roeddem yn ffodus iawn, diolch i fuddsoddiad y Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol, ein bod wedi gallu cynnig cyflogaeth iddo er mwyn ei alluogi i ddatblygu ei botensial. Heb yr arian yma ni fyddem fod wedi gallu cynnig cyfleoedd o'r fath.''

# JOSHUA IS AN ELITE APPRENTICE

**Sustainable funding is key to a stronger and more resilient third sector. Here's how it has helped ELITE Paper Solutions to support Joshua.**

WCVA's investment in ELITE Paper Solutions through the Social Business Growth Fund has helped Joshua O'Leary with issues around weight, dexterity, dyslexia and depression.

Joshua began work at ELITE in April 2017 as a Trainee Recycling Operative. Since then he has completed manual handling training and a Traineeship Programme and is progressing to a Foundation Apprenticeship in Warehousing. He was nominated for the Wales Apprenticeship Awards and won the People's Plus Traineeship of the Year Level One Award. He said: 'This environment has helped build my confidence. I have made loads of new friends which I couldn't do before.'


Andrea Wayman, Chief Executive of ELITE, said: 'We are naturally very proud of Joshua's outstanding achievements and are extremely fortunate that, through investment from the Social Business Growth Fund, we were able to offer him employment to enable him to develop his potential. Without this funding we would not have been able to offer such opportunities.'



JOSHUA YN GWEITHIO'N GALED YN ELITE PAPER SOLUTIONS
JOSHUA HARD AT WORK AT ELITE PAPER SOLUTIONS

# MAE'R TRYDYDD SECTOR A GWIRFODDOLI YN CAEL EU GWERTHFAWROGI'N FWY A RHODDIR MWY O FFYDD YNDDYNT

# THE THIRD SECTOR AND VOLUNTEERING ARE MORE VALUED AND TRUSTED




Fe wnaethom lansio
**PORTH DATA'R TRYDYDD SECTOR**
sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y sector yng Nghymru

We launched the
**THIRD SECTOR DATA HUB**
providing up-to-date information on the sector in Wales



**CLYWODD DROS 100**
o aelodau yr Athro Laura McAllister yn siarad am arweinyddiaeth y sector yn ein CCB

**OVER 100 MEMBERS**
heard Professor Laura McAllister speak about sector leadership at our AGM



Buom yn cydweithio ag
**INSPIRING IMPACT**
i helpu elusennau Cymru i ddangos y gwahaniaeth maent yn ei wneud

We joined
**INSPIRING IMPACT**
working collaboratively to help charities in Wales to demonstrate the difference they make



Hwylusom drafodaethau rheolaidd rhwng y trydydd sector ac Ysgrifenyddion y Cabinet drwy
**GYNLLUN Y TRYDYDD SECTOR**

We facilitated regular dialogue between the third sector and Cabinet Secretaries through the
**THIRD SECTOR SCHEME**

## YMDDIRIEDOLWR IFANC YN CYFRANNU DROS 400 O ORIAU O'I AMSER

**Mae Gwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn WCVA yn tynnu sylw at werth gwirfoddolwyr fel Kieran.**

Yn ogystal â dal swydd ac astudio ar gyfer gradd Meistr, mae Kieran Vass yn Gadeirydd ar elusen Gwirfoddoli Myfyrwyr Caerdydd (SVC), sy'n cael ei harwain gan fyfyrwyr gan gynnal 27 o wahanol brosiectau yn y ddinas i gefnogi pobl sy'n agored i niwed ac o dan anfantais.

'Mae Kieran yn esiampl ardderchog i bawb yn SVC,' meddai un o'i gydweithwyr yn SVC Adrienne Earls. 'Mae'n anodd cyfleu mewn geiriau yr effaith y mae gwaith Kieran yn ei chael ar y gymuned.'

Amlygwyd stori Kieran yng Ngwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru pan dderbyniodd dlws yn y categori Ymddiriedolwyr. Mae'r gwobrau'n cydnabod ac yn dathlu llwyddiannau gwirfoddoli, gan dynnu sylw at effaith gwirfoddolwyr fel Kieran a hybu arferion da i eraill yn y trydydd sector.

Gallwch ddarllen mwy am enillwyr gwobrau WCVA ar **www.wcva.org.uk**

## YOUNG TRUSTEE CONTRIBUTES OVER 400 HOURS OF HIS TIME

**WCVA's Volunteer of the Year Awards help promote the value of volunteers like Kieran.**

As well as holding down a job and studying for a Master's degree, Kieran Vass is Chair of Student Volunteering Cardiff (SVC), a student-led charity that runs 27 different projects across the city supporting vulnerable and disadvantaged people.

'Kieran is such a fantastic role model for everyone at SVC,' said colleague Adrienne Earls. 'It's hard to truly put into words the effect Kieran's work has on the community.'

Kieran's story was highlighted at our Wales Volunteer of the Year Awards where he received a trophy in the Trustee category. The awards recognise and celebrate volunteer achievements, showcasing the impact of volunteers such as Kieran and promoting good practice to his peers in the third sector.

Read more about WCVA's award winners at **www.wcva.org.uk**



KIERAN YN DERBYN EI WOBR GYDA'I GYFAILL HOLLIE YN EIN SEREMONI YN Y CORNERSTONE YNG NGHAERDYDD

KIERAN RECEIVING HIS AWARD WITH FRIEND HOLLIE AT OUR CEREMONY AT THE CORNERSTONE IN CARDIFF

## GOFOD$^3$: ACHLYSUR ARBENNIG I'R TRYDYDD SECTOR

**Ein digwyddiad mwyaf yn amlygu amrywiaeth ac effaith y sector yng Nghymru.**

Cynhaliwyd ein digwyddiad blynyddol gofod$^3$ am yr eildro ac roedd yn fwy fyth o lwyddiant na'r un cyntaf. gofod$^3$ yw'r lle yng Nghymru i'r trydydd sector ac eleni aeth 535 o bobl i dros 70 o sesiynau, gan gynnwys:

- Lansio Fforwm Cymdeithas Sifil Brexit, partneriaeth rhwng WCVA a Phrifysgol Caerdydd, sy'n cynnal trafodaethau a sgyrsiau am oblygiadau Brexit i Gymru
- Ein Cadeirydd yn sgwrsio ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cyfle i edrych ar ein llwyfan gwirfoddoli digidol newydd sbon
- Trafod rôl y sector yn helpu i roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith

Roedd hefyd 61 o stondinau arddangos amrywiol yn gofod$^3$

## GOFOD$^3$: THE THIRD SECTOR SHOWCASE

**Our biggest event highlights the diversity and impact of the sector in Wales.**

Our second annual gofod$^3$ event was an even bigger success than the first. gofod$^3$ is Wales' space for the third sector and this year 535 participants attended over 70 sessions, which included:

- The launch of the Brexit Civil Society Forum, a partnership between WCVA and Cardiff University, which hosts discussions and talks on the implications of Brexit for Wales
- Our Chair in conversation with the Cabinet Secretary for Local Government and Public Services
- A look at our brand new digital volunteering platform
- A discussion about the sector's role in supporting the delivery of the Social Services and Well-being (Wales) Act

gofod$^3$ also played host to 61 different exhibition stands




GOFOD$^3$ - LLE DA I HEL CLECS Â CHYDWEITHWYR O'R SECTOR

GOFOD$^3$ - A GREAT PLACE TO CATCH UP WITH COLLEAGUES FROM THE SECTOR



11


# MAE'R TRYDYDD SECTOR A GWIRFODDOLI YN CAEL MWY O EFFAITH AR LESIANT YN AWR AC YN Y DYFODOL

# THE THIRD SECTOR AND VOLUNTEERING MAKE A BIGGER IMPACT ON CURRENT AND FUTURE WELL-BEING



Rhoesom y cyfle i dros
**30 O GRWPIAU TRYDYDD SECTOR**
ddweud eu dweud ar yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol

We facilitated over
**30 THIRD SECTOR GROUPS**
to have their say into the Parliamentary Review of Health and Social Care



Cafodd adnoddau Environet Cymru i'r trydydd sector ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) eu lawrlwytho
**482 O WEITHIAU**
a'r animeiddiad Nodau Llesiant ei wylio
**976 O WEITHIAU**

Environet Cymru's resources for the third sector on the Well-being of Future Generations (Wales) Act were downloaded
**482 TIMES, WITH 976 VIEWS**
of our Well-being Goals animation

## ARLOESI I ARBED

Rhoddodd Llywodraeth Cymru, Nesta, Prifysgol Caerdydd a WCVA £119,997 i brosiectau arloesi ar y cyd rhwng y trydydd sector a'r sector cyhoeddus. Mae'r prosiect yn ariannu ymchwil i archwilio syniadau newydd sydd â'r potensial i wella gwasanaethau cyhoeddus a chreu arbedion yng Nghymru.

## INNOVATE TO SAVE

Welsh Government, Nesta, Cardiff University and WCVA awarded £119,997 to collaborative third and public sector innovation projects. The project funds research to explore new ideas that have the potential to improve public services and generate cashable savings in Wales.

## RHOI MWY O RYM I GYMUNEDAU

**Arian gan WCVA yn helpu Fern Partnership i wella llesiant y gymuned.**

Gan ddefnyddio arian o Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol WCVA, ac arian benthyg drwy ein Cronfa Fuddsoddi Cymunedol, mae Fern Partnership wedi prynu canolfan chwarae i blant yng Nghlydach, Cwm Rhondda, sydd wedi'i hailwampio a'i throi'n fenter gymdeithasol.

Mae FuZe, sy'n fwy na dim ond lle chwarae meddal i blant, nid yn unig yn darparu swyddi yn y gymuned – a gwasanaethau amrywiol – ond hefyd yn gwneud arian hollbwysig sy'n cael ei ailfuddsoddi yn amcanion cymdeithasol yr elusen.

Yn sgil llwyddiant y prosiect (sydd wedi creu 8.6 swydd gyfwerth ag amser llawn) mae Fern Partnership nawr yn bwriadu parhau i dyfu a dod yn fudiad angori cymunedol, gan ddarparu a hwyluso gwasanaethau hanfodol i'r gymuned.

'Rydym wrth ein boddau â datblygiad y mudiad yn y tair blynedd diwethaf a'r twf sylweddol sydd wedi bod o ran creu swyddi a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig i'r gymuned,' meddai'r Rheolwr-Gyfarwyddwr Michelle Coburn-Hughes.

'Rydym ar y trywydd iawn i greu 55 swydd erbyn Medi 2019 ac mae hyn oll wedi bod yn bosib diolch i dîm staff rhagorol, arweinwyr brwdfrydig ac ysbrydoledig a chymorth gan fudiadau fel WCVA.'

## CREATING MORE EMPOWERED COMMUNITIES

**Funding from WCVA is helping the Fern Partnership improve well-being in their community.**

Using funding from WCVA's Social Business Growth Fund, and with loan finance through our Communities Investment Fund, the Fern Partnership has acquired a children's play centre based in Clydach in the Rhondda which has been refurbished and turned into a social enterprise.

FuZe, which is more than just soft play for children, is not only providing jobs in the community - and a range of services - but also bringing in vital funds to be reinvested in the social aims of the charity.

With the success of the project (having created the full time equivalent of 8.6 jobs) the Fern Partnership now plans to continue to grow and become a community anchor organisation, delivering and facilitating vital services for the community.

'We are delighted with the progress the organisation has made within the last three years which has seen a substantial growth in job creation and the services we offer the community,' said Managing Director Michelle Coburn-Hughes.

'We are on target to create 55 jobs by September 2019 and all this possible due to a team of outstanding staff, inspirational and passionate leaders and support from organisations such as WCVA.'

## CYFRANNU SYNIADAU A DYLANWADU AR GAMAU GWEITHREDU

**Fe wnaethom ymchwilio i sut y gall cymunedau cryf wella llesiant.**

- Fe wnaethom holi barn y trydydd sector i danio trafodaeth ar y materion hyn gan ddefnyddio dulliau amrywiol gan gynnwys digwyddiadau, trafodaeth arlein, blogiau, blogiau fideo a phodlediadau
- Fe weithiom gyda Talwrn, melin drafod yn y sector, i sicrhau bod ein trafodaethau wedi'u seilio ar dystiolaeth
- Cyfrannodd 64 o gynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a byd busnes at ein hadroddiad gydag Ymddiriedolaeth Carnegie UK, 'Cefnogi Lleoedd Lleol a Phobl Leol'. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar drefi yng Nghymru a gwna nifer o argymhellion i bob sector a Llywodraeth Cymru

Arweiniodd y gwaith hwn at adroddiad 'Grymuso Cymunedau', sy'n amlinellu chwe egwyddor i rymuso cymunedau a ddisgrifiwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus fel 'tystiolaeth a syniadau defnyddiol ac amserol'.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector a Llywodraeth Cymru yn y maes hwn drwy gydol 2018-19.

## INFORMING THINKING AND INFLUENCING ACTION

**We explored how resilient communities can improve well-being.**

- We engaged with the third sector to spark debate on the issues using a variety of different platforms including events, online discussion, vlogs, blogs and podcasts
- We worked with sector think tank Talwrn to make sure our discussions were informed by evidence
- 64 representatives of public, private and business sectors contributed to our report with Carnegie UK Trust, 'Supporting Local Places and Local People'. Focusing on towns in Wales the report made a number of recommendations to all sectors and Welsh Government

This activity led to 'Empowering Communities', a report outlining six principles to create empowered communities described by the Cabinet Secretary for Local Government and Public Services as 'a useful and timely piece of evidence and thinking'.

We'll continue to work with the sector and Welsh Government in this area throughout 2018-19.



MICHELLE COBURN-HUGHES YN LANSIAD FUZE

MICHELLE COBURN-HUGHES AT THE LAUNCH OF FUZE

# MAE WCVA YN FWY CYNALIADWY A CHYFRIFOL AC YN GWNEUD DEFNYDD GWELL O ADNODDAU MWY AMRYWIOL

# WCVA IS MORE SUSTAINABLE AND RESPONSIBLE AND MAKES BETTER USE OF MORE DIVERSE RESOURCES




Cyhoeddwyd ein
**CYNLLUN AR GYFER NEWID DROS BUM MLYNEDD**

We published our
**FIVE-YEAR PLAN FOR CHANGE**

Llwyddom i ddal gafael ar
**SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD II**

We maintained our
**GREEN DRAGON II ENVIRONMENTAL STANDARD**



Dargyfeiriodd ein swyddfa yng Nghaerdydd
**4,753 TUNNELL O WASTRAFF**
o safleoedd tirlenwi

Our Cardiff office diverted
**4,753 TONNES OF WASTE**
from landfill



Pan welwyd angen ar y cyd fe wnaethom gofnodi **523** o achosion o'n staff yn mynychu hyfforddiant

Where collective need was identified we recorded **523** instances of our staff attending training




**DROS 18 O BYNCIAU** a **50 O GYRSIAU**
gan gynnwys ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, hyfforddiant cyllid i ddeiliaid y gyllideb a llesiant meddwl yn y gwaith

**OVER 18 TOPICS** and **50 COURSES**
including Welsh language awareness, finance training for budget holders and mental well-being at work

Daethom y
**CYLLIDWR CEFNOGI CYFLOG BYW CYNTAF YNG NGHYMRU**
gan ymrwymo i gefnogi elusennau drwy ariannu swyddi sy'n talu'r Cyflog Byw neu uwch

We became the
**FIRST WELSH LIVING WAGE FRIENDLY FUNDER**
committing to support charities by funding posts at the Living Wage or above




Cwblhaodd
**76 AELOD O STAFF**
gwrs arlein newydd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**76 MEMBERS OF STAFF**
completed a new online course on the Well-being of Future Generations Act



Cyfanswm o tua
**1,862 O ORIAU O DDYSGU**

This added up to approximately
**1,862 HOURS OF LEARNING**

## YN BAROD I FESUR EIN HEFFAITH

**Mae cydweithio a rhannu adnoddau yn hanfodol i gynaliadwyedd.**

Rydym wedi treulio llawer o'r flwyddyn yn gweithio gyda'n partneriaid yn rhwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru i wella'r ffordd rydym yn dangos effaith seilwaith cymorth y trydydd sector – WCVA a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol.

Bydd system newydd i Reoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) yn cael ei rhoi ar waith yn 2018 i gofnodi pob cysylltiad rhwng Cefnogi Trydydd Sector Cymru a'r trydydd sector; bydd Teclyn Olrhain Dylanwad yn cofnodi'r ffyrdd y mae'r trydydd sector wedi dylanwadu ar benderfynwyr yng Nghymru, a bydd arolwg yn cael ei anfon at bob aelod o gyrff Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn holi eu barn am ein gwaith. Wrth wneud hyn gobeithiwn allu creu darlun cyflawn i'r cyhoedd, y Cynulliad Cenedlaethol a'r sector o effaith sylweddol gwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

## SIARTRO CWRS AT GYSYLLTIADAU CRYFACH AG AELODAU

**Rydym wedi ymrwymo i wneud defnydd gwell o'n hadnodd mwyaf, ein haelodau.**

Eleni, rydym wedi atgyfnerthu ein hymrwymiad i'n haelodau drwy lansio Siarter Aelodaeth newydd. Mae'r siarter yn ymrwymo i gynnwys aelodau yn ein holl waith; hwyluso sgyrsiau yn y sector drwyddo draw; profi syniadau a ffyrdd newydd o weithio, a bod yn agored ac yn gynhwysol. Mae hefyd yn annog aelodau i gefnogi ein gweledigaeth ar gyfer trydydd sector sy'n gwella llesiant i bawb; darparu adborth ar ein ffordd o weithio, a rhannu syniadau a gwybodaeth.

Llofnodwyd y Siarter yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn Llandudno fis Tachwedd. Cydlofnododd Prif Weithredwr CAIS, Clive Wolfendale, y Siarter ynghyd â'n Phrif Weithredwr, Ruth Marks. Roedd Clive yn falch o ymrwymo CAIS i amcanion y Siarter, a dywedodd: 'Braint o'r mwyaf oedd i mi lofnodi'r siarter aelodaeth hon ar ran y trydydd sector cyfan yng Nghymru.'

## READY TO MEASURE OUR IMPACT

**Working in partnership and sharing resources is vital for sustainability.**

We have spent much of this year working with Third Sector Support Wales (TSSW) partners on ways to improve how we demonstrate the impact of the third sector support infrastructure – WCVA and the County Voluntary Councils.

A new Customer Relation Management (CRM) system will be implemented in 2018 to record all interactions between TSSW and the third sector; an Influencing Tracker will catalogue the ways in which the third sector has influenced decision-makers in Wales, and a survey will be sent out to all members of TSSW bodies asking them their opinions on the work we do. In this way we hope to be able to present a full picture to the public, the National Assembly and the sector of the substantial impact of the work of TSSW.

## CHARTING A COURSE FOR STRONGER TIES WITH MEMBERS

**We have committed to making better use of our biggest resource, our members.**

This year we have rejuvenated our commitment to our members by launching a new Membership Charter. The Charter commits to involving members in all our work; facilitating conversations across the third sector; testing new ideas and ways of working; and being open and inclusive. It also encourages members to support our vision of a third sector that improves well-being for all, to provide feedback on how we work, and to share ideas and knowledge.

The Charter was signed at our Annual General Meeting in Llandudno in November. CAIS Chief Executive Clive Wolfendale co-signed the Charter along with our Chief Executive, Ruth Marks. Clive was pleased to commit CAIS to the Charter's aims and said: 'It was a great honour to sign this membership charter on behalf of the whole of the third sector in Wales.'




CLIVE WOLFENDALE A RUTH MARKS YN LLOFNODI'R SIARTER
CLIVE WOLFENDALE AND RUTH MARKS SIGN THE CHARTER

# TROSOLWG O'N PERFFORMIAD ARIANNOL

**Mae'r crynodeb o'n perfformiad ariannol a amlinellir drosodd yn crynhoi gwybodaeth a godwyd o'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol statudol. Mae'r Cyfrifon Blynyddol llawn, Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol ar y cyfrifon hynny ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar gael gan Tracey Lewis, Ysgrifennydd y Cwmni, neu ar ein gwefan www.wcva.org.uk.**

Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan yr Elusen £4,057,738 mewn cronfeydd wrth gefn digyfyngiad. Roedd ganddi £3,832,124 pellach mewn cronfeydd cyfyngedig, sef cyllid a gafwyd i gynnal prosiectau a gweithgareddau penodol.

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn ceisio sicrhau y cynhelir strategaeth ariannol gall a gofalus i sicrhau diogelu cronfeydd digyfyngiad yr elusen a rheoli arian prosiectau mewn modd ariannol briodol i gefnogi cynaliadwyedd ariannol parhaus yr Elusen.

Cymeradwywyd y Cyfrifon Blynyddol ar 23 Awst 2018 ac maent wedi cael eu cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau a'r Cofrestrydd Cwmnïau. Mae'r cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan Archwilydd Statudol, Grant Thornton UK LLP, sydd wedi rhoi barn ddiamod am y datganiadau ariannol blynyddol llawn ac am gysondeb adroddiad yr ymddiriedolwyr â'r datganiadau ariannol blynyddol hynny. Nid oedd eu hadroddiad am y datganiadau ariannol blynyddol llawn yn cynnwys dim datganiad o dan Adrannau 498(2) a 498(3) o Ddeddf Cwmnïau 2006.

# AN OVERVIEW OF OUR FINANCIAL PERFORMANCE

**The summary of our financial performance set out overleaf is a summary of information extracted from the statutory Annual Report and Accounts. The full Annual Accounts, the Report of the Independent Auditor on those accounts and the Trustees' Annual Report is available from Tracey Lewis, Company Secretary or from our website www.wcva.org.uk.**

As at 31 March 2018, the Charity held unrestricted reserves of £4,057,738. A further £3,832,124 was held as restricted reserves, being funding received to carry out specific projects and activity.


The trustees will seek to ensure that a financial strategy of prudence and care is pursued to ensure both the safeguarding of the charity's unrestricted reserves and the appropriate financial management of project finances to support the ongoing financial sustainability of the Charity.

The Annual Accounts were approved on 23 August 2018 and have been delivered to the Charity Commission and the Registrar of Companies. The accounts have been audited by a Statutory Auditor, Grant Thornton UK LLP, who has issued unqualified opinion on the full annual financial statements and on the consistency of the trustees' report with those annual financial statements. Their report on the full annual financial statements contained no statement under sections 498(2) and 498(3) of the Companies Act 2006.

## ARIAN A DDOSBARTHWYD I'R SECTOR


## MONEY DISTRIBUTED TO THE SECTOR

**£9,795,552**



## ADNODDAU I MEWN
(Cronfeydd Digyfyngiad)
## INCOMING RESOURCES
(Unrestricted Funds)


£2,762,959



| | |
|---|---|
| Gweithgareddau masnachu eraill | 20.8% |
| Incwm o fuddsoddiadau | 0.3% |
| Incwm arall | 32.2% |
| Grantiau Derbyniadwy | 10.2% |
| Gwariant a adenillwyd | 36.5% |
| Other trading activities | 20.8% |
| Income from investments | 0.3% |
| Other income | 32.2% |
| Grants Receivable | 10.2% |
| Expenditure recovered | 36.5% |

## ADNODDAU I MEWN
(Cronfeydd Cyfyngedig)
## INCOMING RESOURCES
(Restricted Funds)


£11,937,746



| | |
|---|---|
| Gweithgareddau masnachu eraill | 0.6% |
| Incwm o fuddsoddiadau | 1.5% |
| Grantiau Derbyniadwy | 97.9% |
| Other trading activities | 0.6% |
| Income from investments | 1.5% |
| Grants Receivable | 97.9% |

## ADNODDAU A WARIWYD
(Cronfeydd Digyfyngiad)
## RESOURCES EXPENDED
(Unrestricted Funds)


£3,124,088



| | |
|---|---|
| Gwariant ar godi arian | 11.3% |
| Gwariant ar weithgareddau elusennol | 88.7% |
| Expenditure on raising funds | 11.3% |
| Expenditure on charitable activities | 88.7% |

## ADNODDAU A WARIWYD
(Cronfeydd Cyfyngedig)
## RESOURCES EXPENDED
(Restricted Funds)

£12,225,381



| | |
|---|---|
| Gwariant ar weithgareddau elusennol | 100% |
| Expenditure on charitable activities | 100% |

# DIOLCH

## Hoffai WCVA ddiolch i'r mudiadau canlynol am eu cefnogaeth

Addysg Oedolion Cymru
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd
Banc Datblygu Cymru
Blake Morgan
Canolfan Cydweithredol Cymru
Canolfan Gelfyddydau Chapter
Charities Aid Foundation
Class Networks
Cornerstone
Creative Loop
Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cynghorau Gwirfoddol Sirol ledled Cymru
Cyngor Dinas Caerdydd
Cymunedau Digidol Cymru
Chwaraeon Cymru
Dennis Publishing
Design Dough
Geldards LLP
Gwesty Dewi Sant, Caerdydd
Hugh James
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Llywodraeth Cymru
NCVO
Nesta
Prifysgol Caerdydd
Pugh Computers
Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru
SCVO
Sefydliad Lloyds Bank
Step Up To Serve
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Team Kinetic
Williams Ross
Y Brifysgol Agored
Y Comisiwn Ewropeaidd
Y Gronfa Loteri Fawr
Y Lab
Ymddiriedolaeth Carnegie UK
Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
Ysbryd 2012
Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru



SEEDS 2 GROW – UN O'R PROSIECTAU CYFLOGADWYEDD A ARIANNWYD DRWY GRONFA CYNHWYSIANT GWEITHREDOL WCVA
SEEDS 2 GROW – ONE OF THE EMPLOYABILITY PROJECTS FUNDED THROUGH WCVA'S ACTIVE INCLUSION FUND



WRAP (WALES RESTORATIVE APPROACHES PARTNERSHIP) YN DERBYN EU GWOBR GWIRFODDOLWR Y FLWYDDYN CYMRU
WRAP (WALES RESTORATIVE APPROACHES PARTNERSHIP) RECEIVE THEIR WALES VOLUNTEER OF THE YEAR AWARD



# AELODAU O FWRDD WCVA

**LLYWYDD**
Michael Sheen OBE

**IS-LYWYDDION**
Tom Jones OBE
Margaret Thorne CBE DL

**CADEIRYDD**
Peter Davies CBE

**IS-GADEIRYDD**
Catriona Williams OBE

**TRYSORYDD**
C Mair Gwynant

**DIRPRWY DRYSORYDD**
Jonathan Evans

**PRIF WEITHREDWR**
Ruth Marks MBE

**YMDDIRIEDOLWYR**
Phillip Avery *(ymddiswyddodd 29 Tachwedd 2017)*
Cherrie Bija
Lindsay Cordery-Bruce
Richard Edwards *(ymddiswyddodd 12 Mawrth 2018)*
Simon Harris
Mark Llewellyn
L Mair Stephens
Fran Targett OBE
Janet Walsh *(ymddiswyddodd 28 Mehefin 2017)*
Richard Williams
Pauline Young MBE

**YSGRIFENNYDD**
Tracey Lewis

**BANCWYR**
Barclays Bank Plc
PO Box 674
Heol y Frenhines
Caerdydd
CF10 2XU

**CYNGHORWYR CYFREITHIOL**
Crowley & Co
10 - 16 Vere Street
Y Rhath, Caerdydd
CF24 3DS

Geldards LLP
Dumfries House
Dumfries Place
Caerdydd
CF10 3NF

Hugh James
114 – 116 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1DY

**ARCHWILYDD**
Grant Thornton UK LLP
Cyfrifwyr Siartredig
Archwilwyr Cofrestredig
11-13 Penhill Road
Caerdydd
CF11 9UP

# WCVA BOARD MEMBERS

### PRESIDENT
Michael Sheen OBE

### VICE PRESIDENTS
Tom Jones OBE
Margaret Thorne CBE DL

### CHAIR
Peter Davies CBE

### VICE CHAIR
Catriona Williams OBE

### TREASURER
C Mair Gwynant

### DEPUTY TREASURER
Jonathan Evans

### CHIEF EXECUTIVE
Ruth Marks MBE

### TRUSTEES
Phillip Avery *(resigned 29 November 2017)*
Cherrie Bija
Lindsay Cordery-Bruce
Richard Edwards *(resigned 12 March 2018)*
Simon Harris
Mark Llewellyn
L Mair Stephens
Fran Targett OBE
Janet Walsh *(resigned 28 June 2017)*
Richard Williams
Pauline Young MBE

### SECRETARY
Tracey Lewis

### BANKERS
Barclays Bank Plc
PO Box 674
Queen Street
Cardiff
CF10 2XU

### LEGAL ADVISERS
Crowley & Co
10 - 16 Vere Street
Roath, Cardiff
CF24 3DS

Geldards LLP
Dumfries House
Dumfries Place
Cardiff
CF10 3NF

Hugh James
114 – 116 St. Mary Street
Cardiff
CF10 1DY

### AUDITOR
Grant Thornton UK LLP
Chartered Accountants
Registered Auditors
11-13 Penhill Road
Cardiff
CF11 9UP




RUTH MARKS YN LLOFNODI ADDEWID IECHYD MEDDWL YN Y GWEITHLE AMSER I NEWID CYMRU
RUTH MARKS SIGNS THE TIME TO CHANGE WALES MENTAL HEALTH AT WORK PLEDGE



ANNA NICHOLL A CHRIS JOHNES YN RECORDIO UN O'N PODLEDIADAU CYMUNEDAU CRYF
ANNA NICHOLL AND CHRIS JOHNES RECORD ONE OF OUR RESILIENT COMMUNITIES PODCASTS

# THANK YOU

WCVA would like to thank the following organisation for their support

Adult Learning Wales
Big Lottery Fund
Blake Morgan
Cardiff City Council
Cardiff University
Carnegie UK Trust
Chapter Arts Centre
Charities Aid Foundation
Class Networks
Co-production Network Wales
Cornerstone
County Voluntary Councils across Wales
Creative Loop
Dennis Publishing
Design Dough
Development Bank of Wales
Digital Communities Wales
Energy Savings Trust
European Commission
Geldards LLP
Heritage Lottery Fund
Hugh James
Lloyds Bank Foundation
Museum, Archives and Libraries Division
NCVO
National Waterfront Museum
Natural Resources Wales
Nesta
The Open University
Public Health Wales
Pugh Computers
SCVO
Spirit of 2012
Sport Wales
St David's Hotel, Cardiff
Step Up To Serve
Team Kinetic
Wales Co-operative Centre
Wales European Funding Office
Wales School for Social Care Research
Welsh Government
Williams Ross
Y Lab

Cyhoeddwyd fis Tachwedd 2018
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Rhif elusen gofrestredig 218093
Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299
Cofrestrwyd yng Nghymru

Published November 2018
Wales Council for Voluntary Action
Registered charity number 218093
Company limited by guarantee 425299
Registered in Wales

Printed on 100% recycled paper
Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu 100%